CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn union ar ôl y CCB yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor ar 14 Mai 2018**

Presennol: Y Cadeirydd y Cyng I Davies; Cyngr Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Hywel Davies, Steve King, Graham Morgan, Mrs L Holder

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 0

CS Clive Davies

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Roedd y Cyngr Mrs E Davies a N Redmond wedi anfon ymddiheuriadau. Croesawyd y Cynghorwyr newydd Mr Steve King a Mr Graham Morgan i'r Cyngor gan y Ceadeirydd. Llongyfarchioodd y Cyng K Symmons hefyd ar gael ei wobrwyo am fod yn aelod gweithredol o'r Blaid Lafur ers 50 mlynedd ac fel Cynghorydd Lleol am 42 o flynyddoedd.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim.

**4. Materion Personol**

Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**Cynlluniau Lleoedd**

Roedd arweiniad pellach oddi wrth CSC gyda dolen o wefan Cymorth Cynllunio Cymru wedi ei anfon o gwmpas. Dywedodd y CS Clive Davies fod Aber-porth wedi nodi manylion ar gyfer ei ardal. Roedd CSC yn ceisio cael cymorth grant er mwyn gallu casglu a chyflwyno gwybodaeth.

Wedyn gofynnodd y Cadeirydd i'r CS Clive Davies roi ei adroddiad gan fod ganddo gyfarfod arall i fynd iddo. Cytunwyd i hyn a chroesawodd y Cynghorydd Sirol y Cynghorwyr newydd a chyflwynodd ei hun. Ychwanegodd yntau ei longyfarchiadau i'r Cyng K Symmons. Nododd yr ymateb i fater y dull atal coed a chlirio rhwystrau o'r afon, a gofynnodd am i hynny gael ei gadw yng nghofnodion y Cyngor. Roedd wedi bod yn y diwrnod agored yng Nghwrcoed, a dywedodd ei fod wedi paratoi ei adroddiad am y cais cynllunio a bod angen cynulleidfa ehangach, a disgwyliai i'r mater fynd gerbron y Pwyllgor. Dywedodd fod angen tystiolaeth ehangach ar gyfer arwyddion cyflymdra wrth yr ysgol, ac mai cynllun Gwylio Cyflymdra cymunedol fyddai'r ffordd ymlaen. Awgrymwyd y gellid hyrwyddo'r cynllun yn y ffair haf. Nododd fod ymgynghoriad Hywel Dda yn mynd yn ei flaen. Dywedodd fod CSC yn hyrwyddo sesiynau codi sbwriel yn gymunedol a byddai'n darparu'r holl offer angenrheidiol, y bagiau a'r cyfarpar ac ati pe bai hyn yn cael ei drefnu yn Llechryd. Byddai gweithdai ar waith yn fuan ar gyfer y system CLIC newydd yn y Sir, a byddai'r Clerc a'r Cynghorwyr yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol. Diolchwyd i'r CS Clive Davies am ei amser, ac yna gadawodd y cyfarfod.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cynigiodd y Cyng Mrs L Holder y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng H Davies a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**

Dim.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 20.04.18 | Seven Stars | Guest Chair's Dinner | 19.95 | Paid |
| 14.05.18 | | | | |
| | Cyngor Sir Ceredigion | Swm anghywir drwy'r banc | 0.30 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 16.00 | |
| | Abacus Cleaning Services | Bloc toiledau, patrôl sbwriel | 200.00 | |
| | Cruse Bereavement Care | Rhodd/grant | 100.00 | |
| | Ffermwyr Ifanc Ceredigion | Rhodd/grant | 200.00 | |
| | Gŵyl Fawr Aberteifi | Rhodd/grant | 100.00 | |
| | Ambiwlans Awyr Cymru | Rhodd/grant Plant | 400.00 | |
| | Samariaid Aberystwyth | Rhodd/grant | 100.00 | |
| | S Davies | Swyddfa yn y Cartref | 25.00 | |
| | S Davies | Cymhwyso cyflog oherwydd newid cod treth | 4.60 | |
| | HMRC | | 0.80 | |
| 30.04.18 | S E Davies | Cyflog | 336.36 | AS |
| | Cyflog i'w thalu oherwydd newid cod treth | | 340.96 | |

Dangoswyd taliadau Ailgylchu LAS yn y Crynodeb Prynu a anfonwyd at y Cynghorwyr
Cynigiwyd: Cyng H Davies, eiliwyd Cyng L Holder, cytunwyd yn unfrydol.

*Yswiriant*
Dywedodd y Clerc mai un dyfynbris yn unig oedd wedi dod drwy froceriaid yn gysylltiedig â'r yswirwyr presennol. Roedd wedi cyfarfod â'r Brocer lleol a byddai yntau'n dod nôl â dyfynbrisiau iddi. Cytunwyd i ddirprwyo mater yr yswiriant i'r Cadeirydd y Cyng Mrs A Edwards a'r Clerc.

*HMRC*
Talu PAYE yn electronig. Nodwyd nad oedd hyn yn orfodol hyd yma, ond gallai hynny ddigwydd. Dywedodd y Cyng Mrs A Edmunds nad oedd eto wedi cwrdd â'r Clerc ynglŷn â gofynion PAYE y Clerc a oedd heb eu datrys.

*Cynllun yr Iaith Gymraeg*
Cytunwyd ar bolisi yn dilyn trafodaeth.
GWEITHREDU: Llunio dogfen derfynol a chylchredeg copiau GAN: Y Clerc

*Archwiliad*
Roedd ffigurau archwiliad diwedd blwyddyn wedi eu cylchredeg i bawb. Yn amodol ar unrhyw sylwadau gan yr archwilydd mewnol, cynigiodd y Cyng A Edwards y dylid eu cymeradwyo. Eiliwyd gan y Cyng K Symmons a chytunwyd yn unfrydol**.** Ar ôl trafodaeth cynigiwyd yr asesiad ariannol a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'w derbyn gan y Cyng S King, eiliwyd gan y Cyng Mrs A Edwards a chytunwyd yn unfrydol.
GWEITHREDU: Crynhoi gwybodaeth a'i hanfon am archwiliad mewnol GAN: Y Clerc

*GDPR*
Nodwyd bod cadarnhad wedi dod nad oedd angen penodi DPO ar gyfer Cynghorau Sir. Roedd y Comisiynydd Gwybodaeth wedi dweud, cyn belled â bod cynghorau cymuned yn cymryd camau clir tuag at gydymffurfio, byddai'r broses yn cael ei gweld fel un yn parhau yn hytrach na gofyniad i'w weithredu'n llwyr ar 25 Mai. Roedd y Clerc wedi gwneud archwiliad sylfaenol o wybodaeth ac roedd yn ystyried hysbysiadau cydymffurfio i gael eu hanfon / harddangos. Roedd yna bolisïau y byddai angen i'r Cyngor eu mabwysiadu, a byddai'r Clerc yn eu darparu maes o law.

*Cwpwrdd Diffibrileiddiwr*
Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i gynhyrchu poster mwy o faint i arddangos y cod ac i weld a ellid anablu'r clo. Byddai hwylustod agor y blwch yn cael ei fonitro am ychydig fisoedd a'r trefniadau'n cael eu hadolygu.
GWEITHREDU: Adolygu'r poster a gweld a ellid anablu'r clo. GAN: Y Cyng G Morgan

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*Cynllun mabwysiadu llwybr*
Dywedodd y Cyng S King ei fod ef a'i wraig yn wirfoddolwyr 'Mabwysiadu Llwybr'. Awgrymwyd y gellid trefnu teithiau cerdded lleol y gellid wedyn fynd i'r afael â rhai problemau lleol.

*Cais am arwyddion 'Dim Parcio' ym Maes y Deri*
Cytunodd y Cyngr i fonitro' r ardal a dod ag adroddiad yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r sawl sy'n byw yno.

**10. Mwynderau**

*Blychau Blodau*
Byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr Huw Thomas ynglŷn â'u gosod.

*Ffin y Parc Ceir*
Nid oedd sylw wedi cyrraedd hyd yma oddi wrth Bwyllgor y Neuadd o ran cadarnhau'r ffin â'r parc ceir. Cytunwyd y gallai Pwyllgor y Neuadd blannu blodau dan yr hysbysfwrdd yn y parc ceir gan gofio y gallai'r bwrdd gael ei adnewyddu.

*Hysbysfwrdd*
Dywedodd y Clerc nad oedd ateb wedi cyrraedd hyd yma oddi wrth arts4wellbeing ynglŷn â phrosiect adnewyddu. Nodwyd bod y blychau arddangos gwydr wedi eu symud oddi yna a'u storio.

**11. Prosiectau'n parhau**
*Yr Aradr*
Nid oedd y Clerc wedi ymweld â'r safle i weld a oedd unrhyw waith wedi ei wneud.
GWEITHREDU: Ymweld â'r safle a dod ag adroddiad yn ôl GAN: Y Cyng S King

*Llwybr yn y cae chwarae*
Dywedwyd y byddai angen un wythnos sych ar y contractwyr cyn ei osod. Byddai'n rhaid cau'r cae tra byddai'r gwaith yn mynd ymlaen, a byddai hynny'n cael ei hysbysebu ar FB a thrwy hysbysiadau.

Nodwyd bod y borfa wedi ei dorri'n wych ar y cae a chanmolwyd y contract unwaith eto. Gofynnwyd a oedd y dulliau i angori pyst y gôl ar gael. Ymddiheurodd y Clerc a dywedodd y byddai'n eu harchebu cyn gynted â phosibl.

*Mainc*
Dywedwyd bod y fainc wedi ei harchebu ac yn y byddai'r cwmni'n cysylltu â'r Cyng H Davies ynglŷn â dod â hi.

**12. Digwyddiadau**

*Adolygu – Cinio'r Cadeirydd*
Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu yn y cinio a gobeithiodd fod pawb wedi mwynhau. Nodwyd y gallai fod yn arfer da cynnal y cinio mewn mannau eraill yn y gymuned yn y blynyddoedd i ddod.

*Gwasanaeth y Cofio*
Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Parch. A Kent i ddechrau gweithio ar drefn y gwasanaeth. Nodwyd yn dilyn gwaith yn ddiweddar fod yr hen eglwys yn edrych lawer yn fwy cymen. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**14. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth wedi gweithredu arni*
Hywel Dda - ein gwybodaeth newid mawr - ymgynghoriad i gau ar 12 Gorffennaf.

Cytunwyd y byddai’r Cyngor yn anfon unrhyw sylwadau at y Clerc fel y gallai eu crynhoi a’u cyflwyno yng nghyfarfod Mehefin/Gorffennaf.

*Gohebiaeth wedi’i nodi*
Arweiniad Gwasanaethau Un Llais Cymru

Adolygiad CTC Review - “galw heibio" cenedlaethol ar draws Cymru 24 Mai 2018

Cronfa Cymunedau Gwledig Calor – Beth yw eich prosiect?

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Gofynnodd y Cyng Mrs A Edwards am ganiatâd i’r Parti yn y Parc ar 14 Gorffennaf ddefnyddio’r cae chwarae. Nodwyd y byddai angen tystiolaeth o yswiriant 3ydd parti y trefnwyr ac asesiad risg syml.

Roedd y banciau poteli ym Maes y Deri yn cael eu gorlenwi. Nodwyd y gallai unrhyw un ffonio’r rhif ar y banciau i roi gwybod am hyn. Byddai’r Clerc yn cysylltu â’r Cyngor Sir i weld a ellid gwacau’r banciau yn amlach.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 4.06.18**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i’w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm*